# Profion cyn llawdriniaeth

**Dyddiad cyhoeddi:** Ebrill 2016

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r cyngor ar brofion y dylai pobl eu cael cyn llawdriniaeth a nodir yng nghanllaw NICE NG45.

Mae'r canllaw hwn yn diweddaru'r cyngor ar brofion cyn llawdriniaeth a luniwyd gan NICE yn 2003.

### *A yw'r wybodaeth hon yn berthnasol i mi?*

Ydy, os ydych dros 16 oed ac ar fin cael llawdriniaeth wedi'i chynllunio (a elwir hefyd yn 'ddewisol').

Nid yw'n cynnwys merched beichiog, na phobl sy'n cael:

- llawdriniaeth frys
- llawdriniaeth ar y galon neu'r ysgyfaint
- niwrolawdriniaeth (yn cynnwys yr ymennydd neu linyn y cefn).

## Profion cyn llawdriniaeth

Cyn i chi gael llawdriniaeth byddwch yn cael asesiad cyndriniaethol. Bydd hyn fel arfer yn digwydd mewn clinig asesu cyndriniaethol naill ai yn yr ysbyty neu yn eich cymuned. Yn yr apwyntiad hwn gofynnir cwestiynau i chi am eich iechyd ac am unrhyw feddyginiaethau rydych yn eu cymryd. Yna efallai y cewch gynnig rhai profion. Gelwir y rhain yn 'brofion cyndriniaethol'.

### *Pam y cynhelir profion cyndriniaethol?*

Mae profion cyndriniaethol yn rhoi rhagor o wybodaeth i'ch nyrs neu feddyg am:

- p'un a oes gennych unrhyw broblemau meddygol y gallai fod angen eu trin cyn llawdriniaeth
- p'un a oes angen gofal arbennig arnoch yn ystod neu ar ôl llawdriniaeth
- y perygl yr aiff unrhyw beth o'i le, fel y gallant siarad â chi ynghylch y risgiau hyn.

Mae'r profion y bydd eu hangen arnoch yn dibynnu'n bennaf ar:

- eich iechyd **a'r**
- math o anesthetig a llawdriniaeth rydych yn eu cael.

### *Beth os ydwyf wedi cael rhai profion eisoes?*

Os ydych wedi cael profion yn eich meddygfa, bydd angen i'r canlyniadau gael eu cynnwys yn y llythyr gan eich meddyg teulu pan gewch eich atgyfeirio i weld llawfeddyg. Holwch eich meddyg teulu neu nyrs y practis am hyn.

### *Pwy fydd yn rhoi gofal i chi*

Gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol gwahanol fod ynghlwm â'ch asesiad cyndriniaethol. Rydych yn debygol o weld nyrs ac, os oes angen, anesthetegydd neu feddyg sy'n arbenigo mewn gofalu am bobl sy'n cael llawdriniaeth. Bydd eich meddyg teulu hefyd yn rhan o'r broses.

### *Gwneud penderfyniadau am eich profion*

Dylai eich nyrs neu feddyg drafod profion cyndriniaethol gyda chi. Dylent egluro unrhyw brofion sydd wedi eu cynnig i chi, pam bod eu hangen arnoch a beth maent yn eu cynnwys er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Os byddwch yn dewis, gallwch gynnwys eich teulu neu eich gofalwr wrth wneud penderfyniadau.

Rydym wedi awgrymu rhestr o gwestiynau i'ch helpu i siarad â'ch nyrs neu feddyg.

Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran eich gofal ar wefan NICE ynglŷn â gwybodaeth, cymorth a rhoi eich caniatâd. Efallai y byddwch hefyd am ddarllen gwybodaeth NICE i'r cyhoedd am brofiadau cleifion o fewn gwasanaethau'r GIG i oedolion. Mae'n nodi'r hyn y dylai oedolion allu ei ddisgwyl wrth ddefnyddio'r GIG.

## Profion cyndriniaethol

Caiff enghreifftiau o'r profion y gellid eu cynnig i chi eu disgrifio isod.

**Cyfrif gwaed llawn:** cymerir sampl gwaed i gyfrif gwahanol fathau o gelloedd gwaed.

**Prawf gweithrediad yr arennau:** prawf gwaed sy'n profi'r halenau yn y gwaed a pha mor dda y mae'r arennau yn gweithio.

**Prawf beichiogrwydd:** caiff sampl wrin ei brofi i weld a yw merch yn feichiog.

**Prawf ceulo gwaed:** fe'i gelwir hefyd yn brawf 'haemostasis', caiff sampl gwaed ei brofi i weld pa mor dda y mae'r gwaed yn ceulo.

**Electrocardiograffi (ECG):** prawf sy'n defnyddio sticeri a osodir ar y croen i gynhyrchu olin yn dangos pa mor dda y mae'r galon yn gweithio.

**Ecocardiograffi ('eco'):** mae hwn yn defnyddio sgan uwchsain i brofi pa mor dda y mae'r galon yn gweithio.

**Profion gweithrediad yr ysgyfaint:** profion i weld pa mor dda y mae'r ysgyfaint yn gweithio, er enghraifft, mae prawf o'r enw sbirometri yn mesur pa mor dda y gallwch anadlu i mewn ac allan.

**Profion nwy gwaed:** cymerir sampl gwaed o'r arddwrn a'i fesur i weld lefelau ocsigen a charbon deuocsid ac asidrwydd y gwaed.

**Prawf HbA1c (siwgr yn y gwaed):** caiff sampl gwaed ei brofi i roi gwybodaeth am reolaeth hirdymor o siwgr yn y gwaed.

**Prawf wrin:** caiff sampl wrin ei brofi am heintiau yn y llwybr wrinol neu i brofi gweithrediad yr arennau.

**Prawf crymangelloedd:** caiff sampl gwaed ei brofi am gyflwr o'r enw anemia crymangelloedd.

## Pryd y dylid cynnig profion cyndriniaethol?

Fel arfer ni fydd angen profion cyndriniaethol arnoch os ydych:

- mewn iechyd da **ac**
- yn cael mân lawdriniaeth, er enghraifft tynnu man du.

Fel arfer, dim ond pobl sydd â chyflwr iechyd sy'n eu gwneud yn sâl iawn fydd yn cael cynnig profion cyn mân lawdriniaeth (gall y rhain fod yn ECG a phrofion gweithrediad arennau).

### *Pryd y gall fod angen profion*

Gall fod angen profion cyndriniaethol ar bobl sy'n cael mathau penodol o lawdriniaeth neu sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.

#### Profion cyn llawdriniaeth ganolradd

Mae enghreifftiau o lawdriniaeth ganolradd yn cynnwys tynnu gwythiennau chwyddedig, tynnu tonsiliau allan neu arthrosgopi pen-glin (pan fydd llawfeddyg yn defnyddio llawdriniaeth twll clo i edrych y tu mewn i'r ben-glin).

Mae'r tabl hwn yn dangos y profion y gellid eu cynnig. Os ydych mewn iechyd da mae'n annhebygol y bydd angen profion arnoch.

| Amodau iechyd | Profion posibl |
|---|---|
| Diabetes, clefyd y galon neu glefyd yr arennau | • Gweithrediad yr arennau<br>• Cyfrif gwaed llawn<br>• ECG |
| Clefyd yr ysgyfaint | • Profion gweithrediad yr ysgyfaint a nwy gwaed<br>• Gweithrediad yr arennau<br>• ECG |
| Clefyd yr iau/afu | • Prawf ceulo gwaed |

**Profion cyn llawdriniaeth fawr**

Mae enghreifftiau o lawdriniaeth fawr yn cynnwys tynnu croth merch (sef hysterectomi), tynnu'r colon cyfan neu ran ohono (coluddyn mawr), neu osod cymal newydd megis y glun neu'r ben-glin.

Mae'n fwy tebygol y bydd angen profion arnoch os byddwch yn cael llawdriniaeth fawr. Dylid cynnig cyfrif gwaed llawn i bawb sy'n cael llawdriniaeth fawr. Mae'n debygol y cewch hefyd gynnig:

- profion gweithrediad yr arennau
- ECG.

Profion eraill y gellid eu cynnig i chi:

- profion gweithrediad yr ysgyfaint os oes gennych glefyd yr ysgyfaint
- profion ceulo gwaed os oes gennych glefyd cronig yr afu/iau.

Gweler profion cyndriniaethol i ddarllen disgrifiad o'r profion uchod.

## Profion cyndriniaethol eraill y gellid eu cynnig i chi

### *Prawf beichiogrwydd*

Os ydych yn ferch gellir gofyn i chi a yw'n bosibl eich bod yn feichiog. Os bydd siawns eich bod yn feichiog dylech gael prawf beichiogrwydd oherwydd gall anesthetig a llawdriniaeth achosi problemau i faban yn y groth.

### *Prawf crymangelloedd*

Dylid gofyn i chi os oes gennych chi neu unrhyw aelod o'ch teulu anemia crymangelloedd. Mae hyn oherwydd gall llawdriniaeth ac anesthetig achosi problemau i rywun sydd â'r cyflwr hwn.

Os oes gennych anemia crymangelloedd, dylai'r nyrs neu'r meddyg sy'n eich paratoi ar gyfer llawdriniaeth gydweithio'n agos gyda'ch tîm gofal crymangelloedd i wneud yn siŵr eich bod yn cael y gofal sydd ei angen arnoch.

### *Prawf HbA1c (siwgr yn y gwaed)*

Nid oes angen y prawf hwn arnoch os nad oes gennych ddiagnosis o ddiabetes.

Os oes gennych ddiabetes ac rydych wedi cael prawf HbA1c yn eich meddygfa yn ddiweddar, bydd angen i'r canlyniadau gael eu cynnwys yn y llythyr gan eich meddyg teulu pan gewch eich atgyfeirio i weld llawfeddyg. Gofynnwch i'ch meddyg neu nyrs am hyn. Os nad ydych wedi cael prawf yn ystod y tri mis diwethaf dylech gael cynnig y prawf hwn cyn llawdriniaeth.

### *Ecocardiograffi (eco)*

Ni fydd angen prawf eco ar y rhan fwyaf o bobl cyn llawdriniaeth, ond efallai y cewch gynnig un os oes gennych broblem gyda'r galon, er enghraifft murmur y galon, neu arwyddion o broblem gyda'r galon, fel poen yn y frest neu fod yn brin eich anadl. Dylai eich meddyg gynnal ECG cyn penderfynu a oes angen eco.

### *Prawf wrin*

Yn dibynnu ar y math o lawdriniaeth rydych yn ei chael, efallai y gofynnir i chi am sampl wrin i'w brofi i wneud yn siŵr nad oes gennych haint yn y llwybr wrinol.

## Cwestiynau y gallech fod yn awyddus i'w gofyn am brofion cyndriniaethol

Gall y cwestiynau hyn eich helpu i drafod profion cyndriniaethol gyda'ch nyrs neu feddyg.

- Pryd y byddaf yn cael fy asesiad cyndriniaethol?
- A allwch ddweud mwy wrthyf am y profion rydych wedi eu cynnig i mi?
- Pam rydych wedi cynnig y profion penodol hyn i mi?
- A allwch esbonio buddiannau'r profion rydych wedi'u cynnig i mi, ac os oes unrhyw niwed posibl?
- Beth mae'r profion hyn yn ei olygu?
- I ble y bydd angen i mi fynd i gael fy mhrofion cyndriniaethol?

- Pa mor hir y bydd yn rhaid i mi aros am y canlyniadau?
- Sut y byddaf yn cael canlyniadau fy mhrofion? At bwy fyddant yn mynd?
- Beth mae'n ei olygu os bydd unrhyw un o'r profion yn dangos problemau?
- A allai canlyniadau'r profion effeithio ar b'un a gallaf gael fy llawdriniaeth yn ôl y disgwyl?
- Beth fyddai'n ei olygu i mi os byddaf yn dewis peidio â chael y profion hyn?
- A allwch roi gwybodaeth ysgrifenedig i mi am brofion cyndriniaethol neu ddweud wrthyf ble i fynd i gael gwybod mwy?

## *Rhagor o wybodaeth*

Mae gan adran cleifion a pherthnasau gwefan Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion ragor o wybodaeth am baratoi ar gyfer anesthetig. Gallwch hefyd fynd i wefan NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth.

ISBN: 978-1-4731-1889-8